

Gydag un o bob chwech o bobl yng Nghymru'n byw neu'n gweithio mewn ardal sydd mewn perygl o ddioddef llifogydd ac am fod llifogydd difrifol yn digwydd yn fwy aml, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda chymunedau, busnesau ac unigolion i'w helpu i weithredu'n ymarferol cyn, yn ystod ac ar ôl llifogydd.

Y rhai sy'n byw ac yn gweithio yng nghanol ardaloedd sy'n dioddef llifogydd sy'n cael eu heffeithio'n bennaf, ac yn amlach na pheidio gall misoedd neu hyd yn oed flynyddoedd fynd heibio cyn iddyn nhw ddod dros y trawma a'r llanast a achosir gan lifogydd.

Ond gall y gymuned ehangach ddioddef hefyd, yn enwedig pan mae busnesau'n colli gwasanaethau, swyddi ac incwm yn sgil llifogydd. Felly, mae'n hanfodol bod busnesau'n cymryd camau i wella'u gwydnwch a lleihau'r difrod a achosir gan lifogydd.

Yma mae dau fusnes o ardal Castell-nedd Port Talbot yn esbonio sut maen nhw wedi rhoi cynlluniau llifogydd ar waith er mwyn gallu parhau i redeg eu busnesau, fel rhan o'u trefniadau argyfwng cyfredol, megis gwacáu'r safle os bydd tân.

Evans & Reid

Mark Pitts yw Ysgrifennydd Cwmni Evans & Reid, cwmni peirianeg o Glyn Nedd sy'n cynhyrchu cyfarpar ar gyfer y diwydiant amaeth a'r diwydiant trin deunyddiau, o safle sydd wedi'i leoli rhwng Afon Nedd a Chamlas Nedd.

Esboniodd Mark pam fod cynllun llifogydd yn bwysig i'r busnes:

“Rydym wedi'n lleoli rhwng y gamlas ar y naill ochr, a'r afon ar y llall, sydd gefngefn â'n heiddo. O fy swyddfa i gallwch weld y dŵr islaw'r ffenestr ac mae'n eich gwneud yn ymwybodol o'r hyn allai ddigwydd, pan welwch chi lefel yr afon yn codi cymaint.

“Pur anaml y mae pethau fel hyn yn digwydd, ond maent yn digwydd, felly mae bob amser yn talu ffordd i baratoi cymaint ag y gallwch.

“Mae'n rhaid ichi dderbyn bod yna beryglon a cheisio mynd i'r afael â nhw yn hytrach na meddwl 'fydd hynny byth yn digwydd i ni'. Does ond angen imi edrych ar fy eiddo personol i, bu'n rhaid imi gael arolwg perygl llifogydd arno cyn ei brynu. Pam fydden nhw'n cynnal arolygon llifogydd os nad yw'r perygl yn bodoli?”

Cysylltodd Tîm Ymwybyddiaeth Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru â Mark i drafod creu cynllun llifogydd ar gyfer Evans & Reid, ac yn sgil y cyfarfod dilynol aeth Mark ati i roi cynllun ar gyfer y cwmni ar waith.

“Rydym bob amser yn barod i dderbyn awgrymiadau, felly gall treulio pum munud yn ystyried pa gynlluniau wrth gefn y gellid eu rhoi ar waith fod o help yn y dyfodol os bydd problem yn codi,” meddai Mark.

“Weithiau mae'n rhaid ichi fynd yn ôl i'r cychwyn, ond mae canllawiau ar gael i'ch helpu i greu cynllun yn gyflym os oes angen.”

Un o'r ffactorau allweddol wrth baratoi cynllun llifogydd yw ystyried pa rannau o'r busnes, gan gynnwys y staff, sydd fwyaf mewn perygl os bydd yna lifogydd, ac mae Mark wedi treulio amser yn ystyried sut i leihau'r perygl hwnnw i rannau allweddol o'r busnes.

“Buom ni'n meddwl beth i'w wneud petaen ni'n dioddef o lifogydd sydyn. Sut fydden ni'n gwneud yn siŵr bod ein gweithwyr yn ddiogel a pha gyfarpar fyddai ei angen arnom i osgoi'r perygl?”

“Yn ôl ein gwerthusiad ni fyddai llawer o’n cyfarpar mewn perygl, ond, wrth gwrs, ein blaenoriaeth yw cadw’r staff yn ddiogel, fel gyda’n cynllun tân.

“Er enghraifft, mae cloch dân wedi’i gosod yn y gweithdy - a phe bai rhywbeth felly’n digwydd, gallem gael pawb allan ac i fan diogel yn y modd gorau posib.”

Mae paratoi busnes ar gyfer llifogydd yn golygu cofrestru i dderbyn rhybuddion llifogydd a sicrhau’r lefel gywir o yswiriant, rhywbeth y mae Evans & Reid wedi’i wneud.

Meddai Mark: “Rwy’n edrych ar beth sy’n newid o flwyddyn i flwyddyn o ran ein hyswiriant, gan gynnwys llifogydd, erydiad gwynt, pethau felly. Mae’r rhain i gyd yn ymwneud ag elfennau sy’n dod yn rhan fwy a mwy amlwg o bolisiâu yswiriant.

“Gyda’n math ni o fusnes, allwn ni ddim fforddio peidio â chael yswiriant ar gyfer gwahanol bethau, mae gennym weithdy saernïo dur, felly mae’n rhaid inni gael yr yswiriant cywir ar gyfer y math hwnnw o waith, ac mae gennym nwyon, cyfarpar torri metel, metelau trwm, a wagenni fforch godi ar y safle. Mae llawer o bethau i’w hystyried gyda busnes fel hwn.

Wrth gwrs nid y busnes yn unig sy’n cael ei effeithio gan llifogydd, mae bywoliaeth pobl a’r economi leol dan fygythiad, felly mae Mark yn annog busnesau eraill i baratoi ar gyfer llifogydd.

“Yn yr un modd ag y mae tân a pheryglon eraill yn fygythiad i fusnesau, gall llifogydd fod yn niweidiol iawn,” meddai Mark.

“Felly mi fyddwn i’n argymhell bod busnesau’n meddwl o ddifrif am hyn, hyd yn oed petaen nhw’n treulio hanner awr, neu awr yn meddwl “Iawn, mae llifogydd yn mynd i ddigwydd’, sut fydden ni’n ymdopi? Sut fydden ni’n rhoi cynllun deg pwynt ar waith fyddai’n dangos sut i gael y bobl allan? Pa bethau hoffwn i symud gyntaf, os oes modd? Faint o amser fyddai gennym i adael y safle a symud popeth allan yn ddiogel tybed? Pethau felly.

“Nid yw llawer o fusnesau’n ymwybodol o bethau fel hyn ond mae’n werth trafod ac mae hynny ynddo’i hun yn fan cychwyn.

“Rydym wedi cael mwy a mwy o law dros y 10-15 mlynedd diwethaf, ac mae llifogydd yn fwy cyffredin erbyn hyn, felly mi all ddigwydd yn unrhyw le, ac rydym ar yr un lefel â’r môr yn y fan yma.

“Nid eich busnes chi yn unig fyddai’n cael ei effeithio. Beth yw’r effaith ar yr ardal gyfan o ran mynd a dod, trafnidiaeth ac ati?

“Y pryder mwyaf gyda llifogydd yw na fydddech chi’n gallu rhedeg eich busnes. Mi allai hynny gostio’n ddrud i chi.”

Cludiant Cymunedol Castell-nedd Port Talbot.

Llwyddodd Cludiant Cymunedol Castell-nedd Port Talbot (CCCNPT) i ddenu sylw'r wasg yn ddiweddar pan gwblhaon nhw'r 1000^{fed} cynllun llifogydd busnes yng Nghymru.

Mae CCCNPT yn sefydliad dielw sy'n darparu cludiant hygrych, fforddiadwy i grwpiau gwirfoddol a chymunedol yng Nghastell-nedd a Phort Talbot. Mae ei gynllun llifogydd yn arbennig o bwysig am fod cymaint o bobl yn dibynnu ar CCCNPT i fynd o le i le.

Esboniodd Paul Habberfield o CCCNPT pam fod creu cynllun llifogydd mor bwysig.

“Er nad yw'n pencadlys ni mewn perygl mawr o ddiodef llifogydd, roeddem yn teimlo ei bod hi'n bwysig gwneud hyn er mwyn amharu cyn lleied â phosib ar y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu i'r gymuned leol petai yna llifogydd.

“Daethom yn ymwybodol o'r angen am gynllun llifogydd trwy Ymwybyddiaeth Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru. Cawsom alwad ffôn, yna help i ddatblygu cynllun llifogydd, a dyna sut wnaethon ni ymaelodi.

“Nawr rydym yn derbyn rhybuddion llifogydd, sy'n caniatáu inni gymryd y camau priodol a pharhau i ddarparu'n gwasanaeth.”

Mae'r camau y cyfeiriodd Paul atynt yn cynnwys symud cerbydau o'r depo i safle diogel, lle gellir eu storio a pharhau i wasanaethu'r gymuned, hyd yn oed yn ystod llifogydd.

“Ar hyn o bryd mae gennym naw cerbyd, saith ohonynt â mynediad i gadair olwyn, a all gludo hyd at 16 o deithwyr. Mae'r rhain yn rhedeg saith diwrnod yr wythnos, felly gallwch weld ein bod ni'n darparu gwasanaeth hanfodol i nifer fawr o bobl yng Nghastell-nedd, Port Talbot ac Abertawe,” meddai Paul.

“Rydym yn gwybod beth i'w wneud os bydd llifogydd. Os cawn ni rybudd, gallwn ofyn i un neu ddau o'n gyrrwyr i symud y bysiau.”

Mater o synnwyr cyffredin yw datblygu cynllun llifogydd yn ôl Paul.

“Does dim cost, does dim trafferth, dyw hi ddim yn broblem fawr - byddwn yn delio â'r sefyllfa os a phryd y bydd hi'n codi,” meddai.

“Mi allai'r cynllun arbed arian i ni a chadw'n cerbydau ar y ffordd petaen ni'n diodef llifogydd difrifol. Does dim byd yn waeth na dŵr mewn injan.”

Mae cadw'r cerbydau ar y ffordd yn flaenoriaeth i Paul a'i dîm, ac mae'n enghraifft dda o gostau cudd llifogydd i'r gymuned, ar wahân i'r difrod i eiddo sy'n fwy cyfarwydd i bobl.

Pe na bai cerbydau CCCNPT yn rhedeg oherwydd llifogydd, byddai nifer o bobl o bob cefndir cymdeithasol yn cael eu heffeithio am fod 450 o grwpiau'n defnyddio'r gwasanaeth yn rheolaidd.

“Gallwn gludo unrhyw un i unrhyw le yn y Deyrnas Unedig,” esboniodd Paul.

Rydym yn cludo pobl anabl, yr henoed, grwpiau eglwys, grwpiau ieuenctid a sefydliadau gwirfoddol, yn ogystal â'r gwaith a wnawn ni i'r gwasanaeth ambiwlans.

“Mae gennym hefyd ddau gerbyd tref, y naill yng Nghastell-nedd a'r llall ym Mhort Talbot ac mae pobl yno'n dibynnu arnynt i'w cludo i'r feddygfa, yr ysbyty ac i siopa, felly gallwch weld y byddai pobl eithaf agored i niwed yn cael eu heffeithio heb ein gwasanaethau.

“Rydym yn elusen, ac nid ydym yn cael ein hariannu. Mae costau rhedeg y sefydliad yn sylweddol, felly ni fyddem yn gallu fforddio’r costau ychwanegol a achosir gan lifogydd.”

Mae CCCNPT yn croesawu gwirfoddolwyr ac yn darparu hyfforddiant llawn. Byddent yn falch iawn o glywed gennych, hyd yn oed os mai awr yn unig sydd gennych i’w sbario. Ffoniwch Paul am fwy o fanylion ar 01639 646969.

Nodiadau

Am fwy o wybodaeth ar baratoi eich busnes ar gyfer llifogydd, e-bostiwch Floodawareness.wales@naturalresourceswales.gov.uk neu ewch i wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Ffoniwch y Llinell Llifogydd ar 0345 988 1188 i gofrestru ar gyfer rhybuddion llifogydd rhad ac am ddim.

Am fwy o wybodaeth am Yswiriant Llifogydd ewch i wefan Flood Re www.floodre.co.uk